RHIFYN
ISSUE
40
18.06.21

Llais Llantrisant

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau i GW ar ei llwyddiant wedi iddi sefyll arholiad ffliwt yn ddiweddar. Bydd rhaid i ni gael perfformiad pan fydd pawb yn cael ymgynnull yn y neuadd eto!

Well done to GW who has recently been successful following a recent flute exam. We'll have to have a performance once everyone is able to gather in the hall again!



SEREN RADIO CYMRU
STAR OF RADIO CYMRU

A gawsoch gyfle yn ddiweddar i wrando ar MC yn rhannu ei wybodaeth a ffeithiau pêl-droed gyda gwrandawyr Radio Cymru? Mae MC wedi bod yn cyfrannu at raglen Carl ac Alun wedi iddo ymddangos ar Mastermind Plant Cymru.

Did you have the opportunity to listen to MC sharing his football knowledge and facts with the listeners of Radio Cymru recently? MC has been contributing to Carl and Alun's show following his appearance on Mastermind Plant Cymru.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

16.06.21 - System apwyntiadau Noson Agored wedi cau
Open Evening appointment system closed
21.06.21 - Noson Agored Ar-lein 1 a 2
22.06.21 *Online Open Evening 1 and 2*
28.06.21 - Diwrnod HMS - staff yn unig i fynychu
INSET Day - staff only to attend
29.06.21 - Wythnos Iechyd, Ffitrwydd a Lles yn dechrau
Health, Fitness and Wellbeing week begins
02.07.21 - Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Llanhari
Year 6 visit Ysgol Llanhari

STRWYTHUR STAFFIO'R YSGOL
SCHOOL STAFFING STURCTURE

Isod, gweler strwythur staffio presennol yr ysgol. Os hoffech drafod unrhywbeth ynghylch eich plentyn, cofiwch mai'r athrawon dosbarth yw eich man cyswllt cyntaf. Nesaf, os hoffech drafod unrhyw fater yn bellach cewch droi at yr Arweinwyr Adran / Rheolwyr Llinell. Os nad ydych yn fodlon wedi i chi wneud hyn cysylltwch â fi neu Miss Sara Williams, Dirprwy Bennaeth yr ysgol â chroeso.

Below, please see the school's current staffing structure. Should you wish to discuss any matter regarding your child(ren), remember that their class teachers are your first port of call. Next, should you wish to discuss the matter further, you are able to turn to the Department Leaders / Line Managers. If you find yourself in the position of needing to discuss even further, please contact myself or Miss Sara Williams, the Deputy Head Teacher.



CROESO ATOM
WELCOME

Erbyn hyn, mae Mr Pritchard, Gofalwr newydd yr ysgol, wedi ymgartrefu ac yn gwneud jobyn ffantastig i ni! Hefyd, penodwyd Cynorthwyydd Addysgu yn ddiweddar i weithio gyda phlant CA2 yr ysgol. Y gobaith yw y bydd Ms C Terrell yn gallu ymuno â ni cyn gwyliau'r Haf.

By now, Mr Pritchard, the school's new Caretaker, has settled in and is doing a fantastic job for us! Also, we recently appointed a new Teaching Assistant to work with KS2 pupils. We hope that Ms C Terrell will be able to join us before the Summer holidays.

RHOWCH WYBOD I NI
LET US KNOW

Os oes gan eich plentyn / plant newyddion yr hoffech ei rannu gyda ni ar gyfer Llais Llantrisant, ebostiwch yr ysgol.
If your child(ren) has news you would like to share with us for Llais Llantrisant, please email the school.

ADRODD I RIENI
REPORTING TO PARENTS



Bwriedir dosbarthu adroddiadau cynnydd diwedd y flwyddyn ar ddydd Gwener, Gorffennaf 9fed. Cewch wybod bryd hynny hefyd pa aelod o staff fydd yn addysgu eich plant yn ystod 2021-2022. Fel ag y nodwyd yn Llais Llantrisant 36, bydd angen hollti rhai o'n dosbarthiadau presennol i greu'r strwythur newydd ar gyfer mis Medi gan fod mwy o blant Blwyddyn 6 yn ein gadael ni na sydd o blant Meithrin newydd yn ymuno â ni.

We intend to distribute end of year progress reports on Friday, July 9th. You will also receive notification of your child(ren)'s class teacher for 2021-2022. As mentioned in Llais Llantrisant 36, some of our current classes will be split to create the new class structures for September since there are more Year 6 children than new Nursery children joining us in September.

CASGLU DATA (O HYD!)
DATA COLLECTION (STILL!)

Unwaith eto, hoffem atgoffa pawb am y llythyr yma a anfonwyd at bawb fis Rhagfyr. Gofynnir i chi gwblhau'r taflenni casglu data a'u dychwelyd i: data.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda. Maent yn bwysig iawn ar gyfer rhesymau casglu data a manylion cyswllt.

Once again, we should like to remind everyone of this letter which was sent out in December. We ask that you complete the data collection form and return it to:
data.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk
as soon as possible, please. They are most important for data and contact details purposes.

Ewch i / *Remember to visit : www.ygggllantrisant.cymru*

MEDDYGINIAETH
MEDICATION

Gweler yma copi o Bolisi Gofal Iechyd yr ysgol. Os yw'ch plentyn yn ddigon iach i fynychu'r ysgol ond bod angen moddion wedi'i roi gan feddyg arno/arni, darllenwch y polisi yma os gwelwch yn dda. Ni fydd unrhyw aelod o staff yn cael gweinyddu moddion sydd wedi'i roi gan feddyg heb drafodaeth ymlaen llaw a'r ffurflenni perthnasol yn cael eu cwblhau. Ni fydd unrhw aelod o staff yn cael gweinyddu moddion di-brescriptiwn. Cysylltwch â'ch athrawes / athro dosbarth i drafod hyn ymhellach. (GWEFAN YR YSGOL).

Please see here a copy of the school's Healthcare Policy. If your child is well enough to attend school but needs to take prescribed medicine during the day, please read the policy. No member of staff is able to administer medically prescribed medicine without prior discussion and the relevant forms being completed. No staff member is able to administer non-prescription medicines. Contact your class teacher to discuss this further. (SCHOOL WEBSITE).

NOSWEITHIAU AGORED - MEHEFIN 21ain & 22ain
OPEN EVENINGS - JUNE 21st & 22nd



Erbyn hyn mae 96% o rieni wedi gwneud apwyntiad i drafod cynnydd eu plant â'r athrawon dosbarth. Diolch yn fawr iawn i chi am wneud hyn a chofiwch fwrw golwg dros yr esiamplau o waith a ebostiwyd i gyfrifon HWB y plant ar ddydd Llun, Mehefin 14eg. Gofynnir yn garedig nad yw'r plant yn bresennol tra eich bod yn cynnal y cyfarfod â'r athrawon, os gwelwch yn dda, gan fod materion sensitif yn cael eu trafod weithiau.

By now, 96% of parents have made an appointment to discuss their child(ren)'s progress with the class teachers. Many thanks for doing so and remember to take a look at the examples of the children's work which were emailed to their HWB accounts on Monday, June 14th. We kindly ask that the children are not present during the meeting, please, since sensitive matters can sometimes be on the agenda.

www.ygggllantrisant.schoolcloud.co.uk

YMWELIAD ADAM COLEMAN
ADAM COLEMAN'S VISIT



Braf iawn oedd cael estyn croeso i Mr Coleman y tymor hwn i gynnal sesiwn gyda phlant Blwyddyn 6. Testun trafodaeth Mr Coleman oedd 'Y Cam Nesaf' er mwyn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Diolch yn fawr i Mr Coleman am roi o'i amser ac am y rhoddion hefyd - llyfrynnau defnyddiol i'r plant ar gyfer y cam nesaf!



It was great to be able to extend a welcome to Mr Coleman to come along to school for a session with Year 6 pupils. Mr Coleman's discussion today was all about 'The Next Step' to prepare the children for the next step from primary school to secondary school. Many thanks to Mr Coleman for giving of his time and for the much appreciated gifts also - handy booklets in readiness for the children's next steps!

COVID-19 - SYMPTOMAU A PHROFION
COVID-19 - SYMPTOMS AND TESTS

Heb eisiau siarad yn rhy fuan, fel petai, rydym wedi bod yn ffodus iawn ble mae COVID-19 yn y cwestiwn! Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith diwyd i sicrhau ein bod yn cadw'r plant i gyd yn ddiogel yn yr ysgol a'r 'swigod' i gyd ar wahân yn ystod y cyfnod hwn.

Without wishing to speak too soon, as it were, we have been very fortunate in school where cases of COVID-19 are in question! I would like to thank all the staff for their diligent hard work to ensure that we keep the children safe whilst in school and that our 'bubbles' are kept apart during these times.

A reminder:

Anyone who lives with someone displaying COVID-19 symptoms, or is in an extended household arrangement (where they had contact in the two days before the person had symptoms) with someone displaying symptoms must stay at home for 10 days from the day the first person became ill or until the outcome of the COVID-19 test is known.

RCT COUNTY BOROUGH COUNCIL
EDUCATION AND INCLUSION SERVICE DIRECTORATE
'Guidance for the safe re-opening of schools'
Version 9 - 18.05.21

Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth / *Many thanks for your support*

Dilynwch ni / *Follow us :* **@YGGGLlantrisant**